

**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**4 Mawrth 2024 yn Neuadd Jiwibili Llangeitho am 8.00 o'r gloch**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,**  
**4 March 2024 at Llangeitho Jiwibili Hall at 8.00pm**

**Presennol/Present**

Cyng/Cllr Rhian Turner (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Sarah Evans, Gwilym Evans, Daniel Thomas, Beryl Evans, Ieuan Gwynne, Emyr Jones, Paul Rooke, Dafydd Morse & Cyng/Cllr Rhodri Evans & PCSO John Evans.

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng/Cllr Gerwyn Ebenezer & Cyng/Cllr Myrddin James

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / No one

**Adroddiad yr Heddlu / Police Report**

Cylchredwyd adroddiad yr Heddlu trwy e-bost, a derbyniwyd diweddariad ar lafar.  
*The Police report was distributed via email, and a verbal update was presented.*

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Cytunwyd fod cofnodion mis Chwefror yn gywir ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.  
*The minutes for the February meeting were agreed as being correct by Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Emyr Jones.*

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Soniwyd nad oedd bocs peiriant diffib wedi cael ei leoli ar wal 'Hungry Ram' hyd yma, Cyng Emyr Jones i gysylltu.  
*It was noted that the defibrillator box had not been installed on the wall of the 'Hungry Ram'. Cllr Emyr Jones to contact the owners.*
- Cais am grant tuag at cael Diffib, Rhydypany, oddi wrth BHF yn y rownd gyntaf, ddim wedi bod yn llwyddiannus, cadw ein manylion ar ffeil ar gyfer y rownd nesaf.  
*The grant application to the BHF for a defibrillator at Rhydypany had not gone further than the first round, but our details would be held on file for the next round.*
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad a Cyng Rhodri Evans.  
*BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.*
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsyrn mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir.  
*Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion and being investigated by the County Council.*
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn.  
*The results of the speed lines place within the community had not been received.*
- Perchennog ffens y parc yn Llangeitho, dal heb gwblhau codi'r ffens.  
*The park fence in Llangeitho has not been repaired by the owner.*
- Yn dilyn tystiolaeth allan o'r hen gofnodion, cytunwyd maj'r Cyngor Cymuned oedd perchnogion yr hen cysgodfan bws yn Tro Pair. Clerc i gysylltu ac Un Llais Cymru am gyngor.  
*Following evidence from old minute books, it was agreed that the Community Council were the owners of the old bus shelter on Tro Pair. The Clerk to contact One Voice Wales for advice.*
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma.  
*The hedge cutting at the top of the lane to Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been carried out yet.*
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch a'r sgwâr yn Llangeitho.  
*The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch and Llangeitho square need to be painted.*
- Angen cyfieithiad Saesneg o'r llythyr sydd i'w gadw wrth law ynglŷn ag arwyddion cyflymdra 20mya.  
*English translation of letter now to be kept in reserve regarding 20mph speed signs.*
- Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb o'r Ymgynghoriad o'r Comisiwn Ffiniau hyd yma.  
*No response has been received from the Boundaries Commission.*
- Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir am y conau traffig sydd wedi bod wrth ymyl eiddo Glanwern Penuwch, mae hyn yn codi pryder i'r gymuned gan iddynt rhagweld damwain yn digwydd wrth i gerbydau symud allan i ganol y ffordd i deithio o amgylch y conau.

*The Clerk had contacted the County Council regarding the traffic cones that had been by Glanwern, Penuwch. This is of concern to the residents, and they foresee a crash due to drivers having to veer to the middle of the road to avoid the cones.*

- Angen y sweeper ar hyd y ffordd sydd yn mynd lan i Benuwch.  
*Request for the sweeper to attend to roads leading out of Penuwch.*
- Angen glanhau drains lan ffordd o Parchrhydderch heibio Bronaeron, Llangeitho.  
*The drains up from Parchrhydderch up past Bronaeron, Llangeitho need to be cleaned.*
- Tyllau ar y ffordd uwchben fferm Cilcert, ar bwys y bales silwair, wedi'u llenwi  
*Potholes on the road beyond Cilcert Farm, near the silage bales, had been filled.*
- Cadarnhawyd mae golau LED oedd golau o'r Ysgol yn Llangeitho draw am y dafarn Tair Pedol. Er mwyn derbyn mwy o olau ar hyd y palmant, falle yr ateb fyddai i ddodi golau stryd ychwanegol ar hyd y llwybr.

### **Llyn Fanod**

Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Cyfreithiwr Mr Edward Harris, yn cadarnhau'r canlynol:-  
*No response received from Mr Edwards Harris Solicitors, confirming the information below: -*

Clerc i ysgrifennu at y cyfreithiwr eto yn gofyn y canlynol:  
*Clerk to write to the solicitors requesting clarification of matters listed below:*

1. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, pam mae dim ond rhan Blaenpennal o'r Llyn gafodd ei gwerthu i'r Wildlife Trust yn yr wythdegau a dim y Llyn i gyd?  
*If the University are the owners, why was it that only the Blaenpennal part of the lake was sold to the Wildlife Trust in the 1980s and not the whole lake?*
2. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, pam na ddangoson nhw dim diddordeb yn atal y Llyn cael ei gwerthu pan oedd y ddaear o amgylch ar sêl Penlon tair blynedd yn ôl? Buon yn cysylltu gyda'r Prifysgol adeg ni ond doedden nhw ddim am wybod, ac heblaw bod rhai o ni wedi aros lan dros y Llyn, mi fyddai wedi cael ei gwerthu gyda'r tir.  
*If the University are the owners, why didn't they show any interest in preventing the sale of the lake during the sale of Penlon land three years ago? We contacted the University at the time, and they weren't aware of the sale, and if we hadn't raised the matter at the time the lake would have been sold with the land.*
3. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, beth yw ei bwriad tuag at y Llyn, e.e. rheolaeth o'r Llyn, diogelwch o'r cyhoedd fydd yn mynd at y Llyn, bywyd natur ar y Llyn, gweithio gyda'r Wildlife Trust ac yn y blaen.  
*If the University are the owners, what are their intentions regarding the future of the lake, e.g. – management of the lake, health and safety of the public visiting the lake, wildlife at the lake, working with the Wildlife Trust etc.*

Clerc i gysylltu a'r cyfreithwyr am diweddariad o'r uchod.  
*Clerk to contact the solicitors for an update on the above.*

### **Cyfrifon/Accounts**

- Cyflog Clerc – Chwefror '24 - £123.11

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Beryl Evans Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Dafydd Morse

### **Bwrdd Gwybodaeth & Deiseb Heddwch/Information Board & Peace Petition**

Trefniadau yn parhau rhwng pwyllgor yr uchod a phwyllgor Mynwent Capel Gwynfil ynglyn a lleoliad y Bwrdd Gwybodaeth, ond nodwyd ni fydd dim yn cael ei leoli addi amgylch y bedd gwreiddiol, trafodwyd arddangos y bwrdd tu flaen i Capel Gwynfil. Cadarnhawyd **nad** Pwyllgor y Capel na'r Cyngor Cymuned sydd a chyfrifoldeb y bedd.  
*Arrangements were continuing between the above Committee and Capel Gwynfil Cemetery Committee regarding the location the Information Board, but it was noted that the board should not be placed near the grave, but possibly by the chapel. It was confirmed that neither the Chapel nor the Community Council were responsible for the grave.*

### **Gohebiaeth/Correspondence**

Derbyniwyd rhestr o ddyddiadau i gwrdd gyda chwmmi Belltown Power, ond oherwydd amserau'r cyfarfodydd yn ystod y dydd, ni fyddai'n bosibl i gwrdd **â nhw**. Gofynnir i'r Clerc gysylltu gyda'r cwmni i weld o fyddai modd derbyn cyflwyniad pwynt pŵer dwyieithog oddi wrthynt, neu cysylltu ar-lein trwy Zoom ar noswaith cyfarfod y Cyngor.

A list of several possible dates for the meeting with Belltown Power had been received, but because of the company were suggesting times during the day, it was not possible to meet with them. The Clerk to contact the company to see if they could do the presentation online via Zoom during one of the monthly meetings.

### **Cyngor Sir Ceredigion County Council**

Ymgeisydd/Applicant : Mrs L Viola

Lleoliad Safle: Land Adj Glennydd, Tregaron, SY25 6TL

Y Bwriad/Purpose: Erection of dwelling & associated works.

Trafodwyd y cais cynllunio uchod a chytunwyd nid yw gefnogi ar y rhesymau isod:

*The application was discussed and it was decided to object to the application for the following reasons:*

- Cynghorwyr yn teimlo nad oes angen fwy o dai farchnad agored yn y pentref ar hyn o bryd ond fyddde plots fforddiadwy i bobl ifanc fod yn dderbyniol  
*Councillors felt that there was no need for further open market houses in the village at present but affordable housing plots would be more acceptable*
- Agosatwydd y datblygiad i'r parc chwarae a'i effaith posib ar y cyfleuster pwysig hynny i blant yr ardal.  
*The close proximity of the development to the childrens park and the possible effects on this important facility*
- Agosatwydd y datblygiad i system garthfforsiaeth y pentre a diogelwch y system honno yn sgil y datblygiad.  
*The close promiximity of the development to the village's sewerage system and the safety of that system as a result of the development*

Soniwyd mae 'Land Adj Glennydd, Llangeitho ddylsai'r cais hwn fod NID Tregaron.

*It was noted that the application should be 'Land Adj Glennydd Llangeitho, and NOT Tregaron.*

### **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Dim i'w gofnodi/Nothing to report.

### **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Mr Orwel Davies, Stags Head yn cynnig paentio'r arosfan bws, paent gwyrdd golau i'w gynnig gan Henry Bulman. Cytunwyd a diolchwyd i'r ddau am eu haelioni caredig.  
*Mr Orwel Davies, Stags Head had offered to paint the bus shelter, light green paint was offered by Henry Bulman. Both parties were thanked for their generosity.*
- Derbyniwyd manylion y gwasanaeth 'Hail & Ride' oddi wrth Cyng Gwennifer Owen – Dim gweithrediad.  
*Information regarding 'Hail & Raide' Service was received from Cllr Gwennifer Owen – No action*
- Awgrymodd y Clerc ffurfio is-bwyllgor ar gyfer prosiectau arbennig, e.e Cynllunio; Grantiau ac yn y blaen.  
*The Clerk suggested the forming of sub-committees for special projects e.g. Planning, Grants etc.*
- Angen glanhau'r ffordd heibio Glanwern, Penuwch, o'r cerrig sydd wedi syrthio.  
*The stones that had fallen to the rooad by Glanwern Penuwch need to be cleared*
- Soniwyd bod cyflwr y ffordd lawr Lôn Ty Croes, Penuwch wedi mynd yn wael ac mae cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw cynnal y Lôn.  
*It was noted that the lane leading to Ty Croes, Penuwch was in poor condition and it was the County Council's responsibility to maintain the road.*
- Soniwyd bod yr angen am 20mya trwy Penuwch yn ddiangen a bod angen ymateb i lythyr Elin Jones i grybwyll hyn.  
*It was noted that the the 20mph limit through Penuwch was un-necessary and we should responds to Elin Jones' letter regarding that.*
- Nodwyd fod Culvert wedi blocio ar y ffordd Alltgoch, Bwlch y Ddwyallt, Pantybeudy Hall, Llangeitho.  
*It was noted that culvert was blocked on the road by Alltgoch, Bwlch y Ddwyallt, Pantybeudy Hall Llangeitho*
- Cyflwr y ffordd lawr o'r Pentref Llangeitho lawr am Bont Aeron, heol Talsarn, wedi mynd yn wael, ynghyd a'r ffordd oddi amgylch y Lôn fach o Parcrhyddech draw am Felinfawr.  
*The road from Llangeitho village towards the River Aeron bridge, Talsarn Road was in a poor condition, as well as the lane from Parcrhydderch towards Felinawr.*
- Tyllau yn y ffordd lan am Bwlchffin – Tynant – Penpontbregarreg.  
*Potholes on the road up towards Bwlchffin -Tynant-Penpontgarreg.*

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Capel Llangeitho ar nos Lun 8fed o Ebrill 2024 am 8 o'r gloch.

*The next meeting will be held at Llangeitho Vestry Chapel on Monday 8<sup>th</sup> April 2024 at 8.00 o'clock.*